**C.Y.S.A.G. - CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL 10-10-07**

**Yn Bresennol:**
Y Cynghorydd Selwyn Griffiths (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Pat Larsen (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr: W. M. Meredith, Arwel Pierce, Arwel Jones

**Cristnogion a chrefyddau eraill:** Mr Cynrig Hughes, (Yr Annibynwyr), Mr Gwyn Hefin Jones, (Eglwys Bresbyteraidd Cymru). Y Parchedig Tegid Roberts (Yr Eglwys yng Nghymru), Mrs Eirian Bradley Roberts (Yr Eglwys Babyddol)

**Athrawon:** Mr Noel Dyer, (UCAC), Mr Dafydd Fôn Williams (SHA)

**Aelodau cyfetholedig:** Mr Rheinallt Thomas

**Swyddogion :** Mr John Blake, (Swyddog Addysg), Miss Bethan James, (Ymgynghorydd Dyniaethau), Barbara Owen, (Swyddog Pwyllgor)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Bill Lovelock, Glyn Owen; Mrs Ruth Davies (Undeb Bedyddwyr Cymru)

**1. GWEDDI**

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi dan ofal Mr Rheinallt Thomas.

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 16 Mai 2007, gan nodi'r cywiriad canlynol:

Tud.2 yn y fersiwn Saesneg: Eitem 6: Nodi mai **WALES SACRE ASSOCIATION** ddylai'r pennawd ddarllen yn hytrach na *Welsh* SACRE Association.

**Mater yn Codi**

a) Adroddodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau iddi gael gwahoddiad i roi cyflwyniad i benaethiaid Uwchradd Môn a Gwynedd ar Addysg Grefyddol Statudol gyda Disgyblion CA5 (16+).
b) Tynnwyd sylw at bwynt 7(c) yn y cofnodion ac ymddiheurwyd am fethu cynnwys yr eitem ar y rhaglen. Sicrhawyd yr aelodau bod y mater yn unol â'r hyn drafodwyd yn a) uchod

**3. ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYSAG GWYNEDD 2006-07**

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau Adroddiad Blynyddol Drafft CYSAG Gwynedd am y flwyddyn academaidd 2006-07 er cymeradwyaeth yr aelodau cyn cyhoeddi copi terfynol. Eglurodd bod yr adroddiad yn rhan o gyfrifoldeb CYSAG wrth gynghori'r Awdurdod Addysg ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd. Mae'r adroddiad hefyd yn gofnod o waith y flwyddyn yn y maes Addysg Grefyddol. Fe gynnwys gwybodaeth dan y pynciau canlynol:-

- Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addysg Grefyddol
- Y Maes Llafur Cytûn
  - Nodwyd y gohiriwyd y Maes Llafur Cytun ond bod Fframwaith Enghreifftiol ar droed
- Safonau Addysg Grefyddol
- Y drefn hunan arfarnu
- Safonau cyrhaeddiad yn yr arholiadau allanol, gan gynnwys manylion o ganlyniadau pob ysgol Uwchradd yng Ngwynedd
- Ymateb yr Awdurdod Addysg Lleol
- Adroddiad ar Hyfforddiant Mewn Swydd
- Addysg Grefyddol ac AADGOS (ACCAC gynt)
  - Adroddwyd ar y cydweithio fu gyda CYSAG Môn a bod cytundeb mewn egwyddor i fabwysiadu'r fframwaith enghreifftiol fel maes llafur Cytun yng Ngwynedd a Môn
- Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau godi unrhyw bwyntiau am gynnwys yr adroddiad, a chafwyd yr wybodaeth mai dim ond yr ysgolion nad oedd wedi cael arolwg yn clustnodi Addysg Grefyddol oedd yn cael eu gwahodd i gynnal hunan arfarniad.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gan dalu diolch i'r swyddogion fu'n ymwneud â'r gwaith o gynhyrchu'r adroddiad.**

## 4. CANLYNIADAU ADDYSG GREFYDDOL SAFONAU CA3 2007

Cyflwynwyd adroddiad yn darparu gwybodaeth am ganlyniadau arholiadau Addysg Grefyddol yn CA3, gan nodi mai er gwybodaeth yn unig y darperir yr wybodaeth gan nad yw'n bosibl cymharu perfformiad y gwahanol sefydliadau oherwydd mai dim ond yn gymharol ddiweddar y cyflwynwyd deunyddiau asesu dewisol i adrannau Addysg Grefyddol.
Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod adroddodd y swyddog na chynhwyswyd Ysgol Tywyn yn y tabl canlyniadau oherwydd na dderbyniwyd y data.
Nodwyd bod llawer mwy o ymgeiswyr yn dewis dilyn y cwrs byr yn hytrach na'r cwrs uwch-gyfrannol.
CA4 – adroddwyd nad yw canlyniadau'r colegau yn gynwysedig yn y tablau a ddarperwyd er gwybodaeth i'r aelodau, ond bod bwriad i'w cynnwys i'r dyfodol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gan longyfarch yr athrawon a'r disgyblion ar eu llwyddiant.**

## 5. HUNAN ARFARNIAD YSGOLION

Cyflwynwyd adroddiad yn rhoi crynodeb o hunan arfarniad o Addysg Grefyddol a gynhaliwyd mewn pedair ysgol sef ysgolion cynradd Edmwnd Prys, Llangybi a Corris ac Ysgol Uwchradd Tryfan.

- Ysgol Edmwnd Prys – adroddiad derbyniol
- Ysgol Llangybi – ni dderbyniwyd manylion ar y ffurflen, a phenderfynwyd gofyn i Ysgol Llangybi am adroddiad manwl cyn y cyfarfod nesaf o'r pwyllgor hwn
- Ysgol Corris – adroddiad derbyniol
- Ysgol Tryfan – adroddiad o agwedd cyffredinol yn hytrach nac ar bwnc penodol. Penderfynwyd cyflwyno cais i Ysgol Tryfan am adroddiad yn benodol ar Addysg Grefyddol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch pwrpas adroddiadau hunan arfarnu, nodwyd bod dyletswydd ar CYSAG i fonitro datblygiad Addysg Grefyddol yn y sir.

Mynegwyd pryder na chyfeirir at yr elfen o addoli ar y cyd yn yr adroddiadau, tra'n cydnabod bod hyn yn fater anodd i benaethiaid yr ysgolion. Nodwyd bod y canllawiau i'r ysgolion yn cynnig arweiniad ar y mater hwn a bod yr ysgolion ar y cyfan yn sylweddoli bod addoli ar y cyd yn fater ar wahan i Addysg Grefyddol.

**PENDERFYNWYD:-**
**i) derbyn yr adroddiad a diolch i'r Ymgynghorydd Dyniaethau am ei gwaith yn trefnu a chwblhau'r adroddiad terfynol.**
**ii) gofyn i Ysgol Llangybi ac Ysgol Uwchradd Tryfan gyflwyno adroddiad allan o hunan arfarnu'r ysgol ar safonau AG a Datblygiad Moesol ac Ysbrydol disgyblion yr ysgol erbyn y cyfarfod nesaf o'r pwyllgor hwn.**

**6. CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU.**

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod o Gymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd yn Llandrindod ar 28 Mehefin 2007.

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi cynnwys y cofnodion**

**7. PWYLLGOR CRAFFU PLANT A PHOBL IFANC**

Yn dilyn cais gan Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc gwahoddwyd enwebiadau am gynrychiolydd o CYSAG i wasanaethu ar y pwyllgor uchod fel Aelod Cyfetholedig Heb Bleidlais.
Enwebwyd Mr Cynrig Hughes i fod yn aelod i gynrychioli'r pwyllgor hwn.

**PENDERFYNWYD ethol Mr. Cynrig Hughes i gynrychioli CYSAG ar y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc fel Aelod Cyfetholedig Heb Bleidlais.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00pm a daeth i ben am 2.50pm

**CADEIRYDD**